Rhifyn Ebrill 1-12_Tud 8 Mehefin.qxd 06/03/2015 10:45 Page 1

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 36. RHIF 11 EBRILL 2015 50c

**Cyflwyno**

# Côr Merched Edeyrnion a'r Unawdwyr Côr Gŵyl y Mimosa



Gwahoddwyd Côr Merched Edeyrnion i gynnal Cyngerdd yr Ŵyl ar nos Sadwrn, 30 Mai yn Eglwys Fethodistaidd Saesneg, Elm Hall Drive (y mae'r adeilad y tu ôl i Eglwys St. Barnabas, Allerton Road, ac yn ymyl pen uchaf Penny Lane. Can llath ar y mwyaf o Gapel Bethel).

Sefydlwyd y Côr yn 1979, a bu'n hynod o lwyddiannus yn y blynyddoedd ar ôl hynny, yn arbennig ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol, gan ennill un-ar-ddeg o weithiau, record arbennig iawn. Yn 1992 enillwyd Cwpan Arian yng ngŵyl Gerdd adnabyddus Verona yn yr Eidal, camp o'r mwyaf. Teithiodd y Côr i gadw cyngherddau i Llydaw, Iwerddon a hefyd i'r Almaen a Barbados yn y Caribî. Gwelir yn y llun aelodau'r Côr, deugain ohonynt. Cyfarwyddwr Cerddorol y Côr yw Mrs Manon Easter Lewis. Bu ei rhieni yn rhan o Gymry Lerpwl. Gwasanaethodd ei thad y Parchedig Easter Ellis yng nghapel Cymraeg Walton Park. Yr oedd yn un o bregethwyr mawr ein cenedl. Nid yw'r Côr bellach yn cystadlu, ond deil yn brysur i gynnal cyngherddau a difyrru cynulleidfaoedd yng Nghymru a Lloegr. Gellir llawrlwytho eu halbwm *Gloria* oddi ar '*i Tunes*'. Gwledd o gân yw Gloria. Cawn gyfraniad hefyd dau unawdydd enwog, sef Siôn Goronwy, sydd yn faswr enwog yn yr Alban a Chymru, a'r annwyl Trebor Edwards, Betws Gwerful Goch a fu yn affaeliad mawr ers blynyddoedd lawer ym myd cerddoriaeth Cymraeg. Y mae Manon Lewis yn barod i gyfeilio i'r unawdwyr.

Edrychir ymlaen i Gyngerdd Cofiadwy yn hanes pobl y Wladfa, Cymry o Lerpwl, Llundain a Chymru.



*Trebor Edwards*



*Siôn Goronwy*


## YN Y RHIFYN HWN:

PARATOI AR GYFER GŴYL MIMOSA MAI 2015.
NEWYDDION O EGLWYSI BETHANIA, BETHEL, SEION.
CYMRY LERPWL, BIRKENHEAD A MANCEINION.
ATGOFION BRIAN THOMAS FEL ATHRO.

Golygyddol

# *Cyfraniad Frank Green yr Artist –*
## *gan D. Ben Rees*

Cyhoeddwyd cyfrol ddwyieithog yn ddiweddar i gydnabod gwaith yr artist Frank Green, Anfield a Phontrug o dan y teitl, ***Frank Green a'r adeiladwyr Cymreig Lerpwl.*** Ceir cyflwyniad gan Nia Roberts, a drefnodd arddangosfa i rychwantu gyrfa Frank Green a'i luniau gwerthfawr o ddinas Lerpwl a hynny ym Mhlas Glyn-y-Weddw. Dywed y gwir amdano:




"Mae Frank yn artist cydnabyddedig, mae wedi treulio'r rhan helaethaf o'r hanner can mlynedd diwethaf yn dogfennu a phortreadu adeiladau a strydoedd Lerpwl".

Llwyddodd i gofnodi adeiladau a strydoedd a gollwyd ac am hynny y mae ei gyfraniad mor bwysig. Artist ydyw sy'n ymwybodol o hanes cymuned, ac yn barod i ymgyrchu dros gadw strydoedd a thai oedd yn werth eu cadw. Mor gynnar a'r 70au pan ddeuthum i'w adnabod ef a'i briod yr oedd yr artist yn barod i bwyso ar Eric Heffer, AS Walton ac eraill i fynegi ei farn. Lleisiodd ei siom fel llawer ohonom yn erbyn difodi tai a adeiladwyd yn solet gan grefftwyr o Gymry ac un ohonynt yw Eglwys Anglicanaidd Cymreig Dewi Sant yn Hampstead Road (gweler tudalen 55).

Cofiwn amdano yn agor siop yn Albert Dock, ac yn ôl Gareth Wyn Jones, ef oedd y gŵr busnes cyntaf i 'rentu gofod yn y datblygiad newydd', ac arddangos yn yr Ŵyl Erddi Genedlaethol a ddaeth a llawer o glod iddo y tu hwnt i'r ddinas yr ymserchodd ynddi o'i enedigaeth. Bellach y mae yn perthyn i ddau fyd, i Lerpwl lle mae ran amlaf (o fore Llun i bnawn Gwener) ac i Bont Rug. Gallwn ddiolch iddo fel Cymry Lerpwl am iddo ddysgu ein hiaith a'n uniaethu ei hun gyda'n dyheadau. Ond dengys y gyfrol fod dau Frank ar gael, Frank y Cymro o Sgowsar, a Frank sydd i'w weld a'i glywed yng Nghanolfan Wyddelig gyda'i ffidil. Mae'n storïwr dan gamp a da ydyw cydnabod ei gyfraniadau parhaol a phwysig fel artist cymunedau.

# Anrhydeddu gŵr a gwraig o Warrington ym Mhalas Buckingham

Mwynhaodd cwpwl caredig sydd wedi meithrin 96 o fabanod dros gyfnod o 43 o flynyddoedd brofiad brenhinol ar ôl trafaelio i Balas Buckingham i dderbyn medalau MBE. Derbyniodd Ros a Warren Whalley o Lower Walton yr anrhydedd yn Rhestr Penblwydd y Frenhines yr haf diwethaf am eu gwasanaeth i blant a theuluoedd. 'Roedd y cwpwl, fydd yn dathlu eu priodas aur eleni, wrth eu bodd yn cyfarfod â'r Tywysog Charles a alwodd eu gwaith yn ysbrydoliaeth i eraill. Meddai Ros, sy'n 72 mlwydd oed, "'Roedd y Tywysog yn hyfryd a bu'n sgwrsio â ni am beth amser gan ddweud ein bod yn gwpwl ardderchog". Nid yw eu hymgysegriad i fod yn rieni maeth erioed wedi pallu a daethant â'u baban diweddaraf (rhif 96) i'r dathliad a gawsant ym mis Ionawr. Er ei fod ond saith mis oed, 'roedd wedi byhafio'n berffaith ar y diwrnod.

Er fod rhif y rhai maent wedi'u meithrin bron â bod yn gant, nid oes ganddynt fwriad i roi i fyny yn y dyfodol agos. Dywedodd Ros, a ddaeth i wybod am anrhydedd yr MBE ar ddiwrnod ei phen blwydd: "Mae pobl yn gofyn imi'n aml a ydwyf am ymddeol a fy ateb pendant yw nad wyf hyd yn oed wedi meddwl am y peth. Mae pob baban yn wahanol, pob un â'u cymeriad bach ei hun, ac yr ydym yn eu caru nhw i gyd. Mae'n hyfryd eu cael o'r ysbyty a'u gweld yn dod yn eu blaen. Dyna paham yr ydym yn eu cymryd". Mae'r cwpwl wedi agor eu drysau am fwy na deugain mlynedd i'r rhai hynny sydd mewn angen – rhai ddim ond wedi eu geni ers ychydig oriau – weithiau heb ond ychydig neu ddim rhybudd o gwbl.

Mae Ros a Warren yn rieni i bedwar o blant eu hunain ac yn nain a thaid i ddeg o wyrion a wyresau, gydag un arall ar y ffordd. Wrth siarad am y babanod a fuont yn eu meithrin, dywedodd Ros: "Maent yn dod yn rhan o bopeth 'rydym yn ei wneud, a phob baban yn dod yn rhan o'r teulu – felly mae gennym deulu mawr erbyn hyn".

Dyma ddarlun o Ros a Warren Whalley a ymddangosodd yn y Warrington Guardian yn ddiweddar. Mae Ros yn Gymraes â'i theulu yn hannu o Nant Gwrtheyrn ym Mhenrhyn Lleyn ac mae hi â'i theulu o'i blaen wedi bod yn mynychu capel Cymraeg Warrington yn gyson ers blynyddoedd lawer.



*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Ein llongyfarchiadau calonnog i Lauren a Gareth Roberts, Aigburth, ar enedigaeth eu mab bychan, Harri Griff. Llongyfarchiadau calonnog hefyd i Mr. Idris a Mrs Mair Roberts, Mayville Road, ar enedigaeth eu ŵyr bach cyntaf. Dymunwn yn dda i'r bychan ac i'r holl deulu.

Bu'r Athro David A. Price Evans yn yr Ysbyty Frenhinol wedi torri ei goes, ond mae bellach yn ôl yn y Cartref yn Woolton. Mae Mrs Louie Jones, Wheatcroft Road, gartref wedi rhai wythnosau yn Yr Wyddgrug ac mae'n araf gryfhau wedi ei thriniaeth. Roedd yn dda gweld Mrs Nerys Vaughan Jones, Mrs Enid Pierce Hughes a Mrs Blodwen Roberts yn ôl yn yr oedfaon a hefyd Miss Hilda Lloyd, Rainhill, yn dilyn ei thriniaeth llaw feddygol. Meddyliwn am Mrs Gwerfyl Jones yn Caldy, Mrs Edna Thomas yn Norris Green a'n blaenor annwyl, Mr. E. Goronwy Owen sydd yn dal yn gaethiwus i'w gartref fel eraill o'n haelodau. Dymunwn y gorau iddynt i gyd.

Meddyliwn yn arbennig yn awr am Mrs Mary Williams, Hornby Lane, sydd wedi brwydro afiechyd am hir amser. Bu'n bur wael ac mae yn dal i dderbyn triniaeth yn yr Ysbyty Frenhinol. Cofiwn hi yn ein gweddïau.

Rydym fel Cantorion Bethel wrthi'n ymarfer dan arweiniad Mr. R. Ifor Griffith. Wedi ein cyfarfyddiad ar nos Lun 23 Chwefror cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi bendithiol iawn a drefnwyd gan Mrs Nan Hughes Parry ar y thema 'Gwanwyn Duw'. Diolchwn yn fawr i Nan ac i Mrs Mair Roberts, Mrs Eryl Dooling, Mr. Ben Hughes a Mr. Roderick Owen, y pump wedi cymryd rhan yn y gwasanaeth. Meddyliwn am un o'n cyfeillion o Seion, Penbedw, sef Mrs Morfydd Williams, Moreton, a gafodd ddamwain fawr gyda'r modur ac sydd yn Ysbyty Caer. Dymunwn adferiad buan iddi.

***Sylwer ar y newidiadau canlynol -*** *Eglwys Bethel, Heathfield Road:* ***Nos Fawrth, 31*** **(nid nos Lun 30)** Mawrth 2015. Myfyrdod ar Y Pasg yng ngofal Dr. Pat Williams a Chantorion Bethel.

**Bore Sul, 12 Ebrill 2015 am 11.15** o'r gloch uno cynulleidfaoedd Bethel a Bethania yn Eglwys Bethania (Christ Church), Crosby Road South, Waterloo o dan weinidogaeth y Parchg. Ddr. D. Ben Rees pryd y gweinyddir sacrament Swper yr Arglwydd. Ni fydd oedfa felly ym Methel.

Cofier hefyd - **Nos Lun, 27 Ebrill 2015** Cyfarfod yn Saesneg o dan nawdd Cangen Lerpwl o Alumini Prifysgol Cymru pryd y ceir darlith gan yr athro Mari Lloyd Williams o'r Brifysgol ar ***Ageing and the Welfare State.*** Bydd y ddarlith yn dechrau am 7.00 yng Nghanolfan y Cymry, Auckland Road, Lerpwl. Llywydd: Dr. Pat Williams.

## Eglwys Seion, Laird Stret, Penbedw

Dyrchynwyd ni oll gan y newydd ar Nos Wener, 20 Chwefror pan glywsom am y ddamwain erchyll a ddaeth i ran Mrs Morfydd Williams a hithau yn teithio yn ôl o Bwyllgor Bywyd a Thystiolaeth o dan nawdd Henaduriaeth y Gogledd-Ddwyrain yng Nghapel y Groes, Wrecsam. Bu'n rhaid i weithwyr y Frigad Dân dorri i fewn i'r car modur i ddod a Morfydd oddi yno a chludwyd hi yn yr ambiwlans i ward gofal dwys Ysbyty Caer. Yn ystod yr wythnos ganlynol bu aelodau o Seion yn ei gweld o ddydd i ddydd, a da deall ei bod yn araf gryfhau. Gwyddom y cymer rai misoedd i'w hadfer i'w chynefin iechyd, a gwelwn ei cholli yn fawr o'n plith. Bwriadai ddod i Oedfa Gŵyl Ddewi Arglwydd Faer Lerpwl ym Methel ond soniwyd amdani a dymuno'n dda. Cynrychiolwyd yr Eglwys gan Miss Iris Hughes Jones, a chymerodd ran, fel arfer, yn ddeheuig. Diolch iddi am y gymwynas a chroesawyd hi gan Lywydd y Mis yn yr oedfa gofiadwy a gafwyd

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Braf oedd cael cynrychiolaeth yng nghyfarfod Peel Holdings i baratoi ar gyfer Gŵyl y Mimosa, a chyfranodd Bethania swm anrhydeddus i Apêl Mimosa. Fel y gwelwn yn y rhestr cafwyd ymateb haelionus iawn gan nifer o'r aelodau, a diolchir iddynt. Clywsom fod Miss Megan Williams, bellach mewn Cartref Henoed yn reit agos i'w chartref yn Blundellsands. Cynrychiolwyd Bethania yn Oedfa Ddinesig Dydd Gŵyl Dewi ym Methel gan Miss Margaret Rowlands, Waterloo, Mrs Pam Macnamara, Litherland, John a Marian Lyons. Arweiniwyd ni yn y gweddïau gan John Lyons a braf oedd cael cymaint yn cymeryd rhan yn y gwasanaeth pobl ieuainc ac arweinwyr y cymdeithasau a chapeli Bethel, Bethania a Seion. Edrychwn ymlaen am Sul, 12 Ebrill yn Eglwys Crist pan bydd Bethel a ninnau yn uno, a gweinyddir Sacrament Swper yr Arglwydd. Croesawyd y Parchedig G. Wareing a'i briod o Southport i oedfa 8 Mawrth, pan oedd ein Gweinidog yn ein harwain.

## Cymdeithas Birkenhead

Dewch "Am dro o gwmpas Birkenhead Park" oedd gwahoddiad Mrs Eira Hughes, i'r aelodau ar nos Lun Ionawr 26. Ar noson digon gaeafol roedd yn gysur clywed nad oedd hi'n ein gwahodd yn llythrennol! Parc a gynlluniwyd ar gyfer y werin bobl yn 1847 yw'n parc ni yma ym Mhenbedw a chawsom hanes diddorol am ei darddiad. Gweledigaeth gŵr o'r enw William Jackson yn 1805, oedd y parc. Gofidiodd nad oedd fawr o lecynnau gwyrdd ar gael mewn tref oedd yn tyfu'n gyflym. 'Roedd o'n ŵr cefnog gyda chysylltiadau pwysig, a llwyddodd i gael grant o £60,000 i brynu darn helaeth o dir yng nghanol y dref. Daeth i gysylltiad a Joseph Paxton, prifarddwr perchennog Chatsworth House, cartref Dug Dyfnaint. Agorwyd y parc a'r doc sydd yn dal ei enw, gan yr Arglwydd Morpeth, ar yr un diwrnod - Llun y Pasg 1847 ac mae hanes am hwyl a sbri arbennig i ddathlu'r achlysur.

Daeth ein parc yn boblogaidd gan y trigolion, ac yn adnabyddus drwy'r wlad - ac ymhellach. Ar daith drwy Brydain daeth Americanwr o'r enw Frederick Ermstead i Birkenhead ac wedi clywed y ganmoliaeth, ymwelodd a'r parc a'i edmygu'n fawr. Wedi dychwelyd i'r U.D. ymgeisiodd mewn cystadleuaeth i gynllunio parc yn Efrog Newydd. Enillodd y wobr a saif Central Park N.Y., ar batrwm ein parc ni. Aeth Ermstead ymlaen i gynllunio dros gant o barciau eraill dros yr U.D.

Arwyddocad arbennig y parc i ni fel Cymry, yw fel safle Eisteddfod Genedlaethol yn 1917. Tybed, crybwyllodd Eira, mai'r "Gadair Ddu" sy'n fwy cofiadwy na'r Eisteddfod fel y cyfryw. Yn sicr mae'n fangre arbennig yn ein hanes, a diolchwn i'r cynghorydd David Evans am y garreg goffa sy'n dal yno. Yn ddiweddarach cafwyd arian loteri i atgyweirio'r parc wedi peth esgeulusdod a bellach mae'n le hyfryd i dreulio amser i gerdded a mwynhau'r gerddi a'r goedwig, a chael paned.

Gwnaed y diolchiadau gan Mr Hywel Jones gan gyfeirio yn arbennig at ymchwil ofalus Eira o'u thestun, ei ffraethineb iaith

a'i chyfathreb naturiol a'i chynulleidfa.

Ar nos Lun Chwefror 9fed clywsom "Stori Dau Daid" gan Iola a Beryl. Cyd-ddigwyddiad hollol annisgwyl oedd i'r ddwy aelod yma daro ar gysylltiad teuluol wrth sgwrsio dros baned, ar ôl un cyfarfod. Taid Iola oedd Gruffydd Thomas, ffermwr, a thaid Beryl oedd David Hughes, pobydd; y ddau yn byw yn Cei Conna, ar lan yr afon Ddyfrdwy yn nechrau'r ganrif diwethaf.

Un o feibion Lleyn oedd Gruffydd Thomas a symudodd i Sir Fflint yn 1915 mewn ffordd digon anghyffredin. Penderfynodd logi trên yn hytrach na loriau, a daeth y cyfan o'i eiddo; teulu, dodrefn, offer tŷ a fferm, ac anifeiliaid o Bwllheli ar y trên. Yn anffodus oedd y trên yma yn darfod ei siwrne yn Fflint a bu rhaid i'r anifeiliaid a'r teulu gerdded pedair milltir i'w fferm newydd. Nid oes hanes sut y daeth eu holl daclau yno – efallai mewn ceffyl a throl David Hughes y pobydd o Gei Conna. Roedd yntau'n enedigol o'r pentref ac yn ŵr mawr ei barch a phoblogaidd yn yr ardal.

Roedd yn hoff iawn o geffylau a thestun balchder iddo oedd gweld un ohonynt yn ennill ras ceffylau yn Rhuthun. Gyda'r wobr, prynodd lestri te drud i'w wraig – llestri tlws iawn sydd bellach yng nghwpwrdd gwydyr Beryl yn Bromborough. Roedd gan Iola lestri te arbennig i ddangos i ni hefyd, llestri "Capel Salem MC" Cei Conna, a gyda nhw, tebot, jwg a phowlen siwgr arian yn anrheg i fam Iola am ei blynyddoedd fel organyddes y capel. Yn aelod o'r un capel oedd David Hughes, athro Ysgol Sul ac arweinydd y gân. Gwelsom y dystysgrif a gafodd wrth ymadael i fyw ym Mhrestatyn – ac ie, ar waelod y dystysgrif oedd llofnod Gruffydd Thomas. Gellwch ddychmygu y pleser a'r boddhad a gafodd Iola a Beryl wrth olrhain a datguddio'r hanesion personol. Roedd yn amlwg o'i sgwrs a'r trysorau teuluol a ddangoswyd ganddynt, eu bod wedi cael hwyl arbennig.

Yna clywsom ychydig o hanes Cei Conna - hanes sydd i'w ddarllen yn llyfr Domesday gyda pris o ddeg swllt arno fel tref fwyaf Sir Fflint yn y cyfnod. Roedd yn borthladd pwysig yn allforio priddfeini o Fwcle a nwyddau eraill. Yno hefyd yr adeiladwyd llawer o longau, yn eu mysg y "Three masted Schooner" olaf – llong a ddefnyddiwyd yn y gyfres teledu "The Onedin Line".

Dau o enwogion Cei Connah, oedd Tommy Jones a ddaeth yn beldroediwr o fri gan ennill un deg saith o gapiau i Gymru a diweddu fel rheolwr tîm Bangor. Mae hanes am Bobby Charlton a Dixie Dean yn estyn clod mawr iddo. Ac i Gei Conna y symudodd Emlyn Williams a'i



*Y parti o Sir Fôn. Y nhw oedd yr adloniant yn ein cinio Gŵyl Dewi. Eu henwau o'r chwith i'r dde yw Sorcha, ei tad, Bryn, Eabha a'i mham Vera Roberts.*

deulu o Drelogan ger Treffynnon pan yn blentyn. Gŵyr pawb am yrfa ddisglair y dramodydd, actor a chynhyrchydd enwog hwn. Clywsom ddarlleniad o'i hunangofiant "George" i gloi'r cyflwyniad gyda'r ôl-nodiad gan Beryl "roedd fy nhaid yn adnabod Emlyn Williams".

Diolchwyd i'r ddwy chwaer gan Mrs Alice Jones gan fynegi ein mwynhad o gyflwyniad mor bersonol ac anghyffredin.

Daeth bron i hanner cant o aelodau a'u ffrindiau at ein gilydd i ddathlu dydd Gŵyl Dewi gyda chinio yn "Grove House" Wallasey. Clywsom air gan y llywydd, Mrs Eirwen Sargent, yn myfyrio ar arwyddocâd Dewi i ni fel Cymry oddicartref yn yr ail fileniwm. Er i'n cymdogion hoffi Cymru am ei harddwch fel man i dreulio gwyliau, ychydig a wyddant am ei hetifeddiaeth a'n diwylliant. Mae'n ddyletswydd arnom ni i'w haddysgu a'n darbwyllo.

Cafwyd adloniant hyfryd gan Sorcha, Eabha a Bryn Roberts o Sir Fôn. Fel y llynedd, swynwyd ni gan leisiau gwych y ddwy ferch ac edmygwn eu hyder a'u safon uchel. Da oedd clywed llais eu tad unwaith eto – cofiwn amdano yn canu gyda'i efaill Richard, er yn blentyn ifanc. Mai ei lais yr un mor ddeniadol. Clywsom ddetholiad o ganeuon gwerin, clasurol a rhyngwladol. Gwnaed y diolchiadau gan yr Is-lywydd, y Barch Glenys Wilkinson – gan gyfeirio at bawb a gyfrannodd at noson ardderchog ym mhob ystyr.

## Cymdeithas Cymry Lerpwl

Ar y nos Fawrth gyntaf o fis Chwefror cafwyd noson o frethyn cartref gyda Brian Thomas yn dweud rhan o hanes ei yrfa fel athro yn Lerpwl. Pan oedd yn barod i gadael y Coleg Normal ym Mangor rhaid oedd iddo penderfynu lle 'roedd am fynd i ddysgu. Wedi i Brif Arolygwr Addysg Lerpwl ddod i Fangor i chwilio am athrawon ifanc addawol, dyma benderfynu dod i Lerpwl i ddysgu. Dechreuodd ar ei yrfa yn Ysgol Uwchradd Gilmour Street lle y cafodd gyngor gan y prifathro, ar ei ddiwrnod cyntaf, y byddai'n anghenrheidiol iddo defnyddio y gansen er mwyn disgyblu'r plant. Sylweddololdd Brian fod y gyfundrefn addysg yn canolbwyntio ar y 'syllabus' yn hytrach nag a'r allu'r blant, pan welodd blant yn dosbarth D yn gorfod ateb yr un papur arholiad a phlant yn nosbarth A. Cafodd gyngor i feddwl am ddysgu mewn ysgolion i blant gyda anghenion arbennig. Fe aeth yn gyntaf i Ysgol Brookside, Fazackerley lle roedd y disgyblion gyda IQ rhwng 75-100. Gwelodd athrawon da a hefyd rhai gwael iawn yn yr ysgol. Er hynny 'roedd Brian wedi canfod ei wir alwedigaeth a bu yn yr un maes am weddill ei yrfa gan orffen yn Brifathro Yn Ysgol y Tywysogion (Princes School) yn Stryd Selborne. Clywsom hanesion llon a lleddf ganddo am y rhagfarn a welodd yn erbyn y plant yma. Gwelsom hefyd faint mor lwcus oedd y plant arbennig yma i gael rhai fel Brian mor frwdfrydig drostynt.

Yr wythnos wedyn cafwyd y Cwis blynyddol o dan ofal Devida Broadbent. 'Roedd rhai o'r cwestiynau yn anodd a bu 3 tîm yn brwydro yn galed i ennill y gystadleuaeth ond unwaith eto tîm y Gweinidog oedd y buddugwyr.

Ar ddydd Mawrth crempog cawsom fynd i gartref Dr Pat Williams am wledd o grempoga ac amser i sgwrsio. Diolch yn fawr iddi am ei chroeso ac am ei holl waith yn paratoi. Fe wnaethpwyd £100 o elw tuag at Apêl y Mimosa.

Rhifyn Ebrill 1-12_Tud 8 Mehefin.qxd 06/03/2015 10:45 Page 5

# Paratoi ar gyfer Gŵyl Mimosa


## *gan Mair Powell a'r lluniau gan Raymond Farley, Blundellsands*

Roedd gennym gyfarfod ar Batagonia i fod yng Nghymdethas Lenyddol Eglwys Bethel ar 9 Chwefror, ond trwy ein Llywydd cawsom wahoddiad i gynnal y cyfan yng Nghanolfan Peel Holdings neu'r Peel Group sydd wedi ei leoli yn Princes Dock, Lerpwl.

Bydd y Gofeb y drws nesaf i'r adeiladau a dadorchuddir y Gofeb yn ystod Gŵyl Mimosa (30 Mai). Mae gan Peel Holdings ddiddordeb mawr yn yr Ŵyl ac yn enwedig yn y Gofeb ac maent wedi bod yn garedig yn rhoi'r tir lle y caiff ei gosod. Daeth cynulleidfa gref i'r adeilad urddasol a chafwyd cyfarfod diddorol dan lywyddiaeth ardderchog Roderick Owen a gyflwynodd i ni Ian Pollitt, sef un o brif bobl y Peel Group. Yn dilyn ychydig eiriau ganddo ef, clywsom hanes y "Liverpool Waterfront" er y deunawfed ganrif gan Peter de Figuieredo. Clywsom fel y gwnaeth Jesse Hartley wahaniaeth mawr i ffyniant Lerpwl trwy adeiladu grwpiau o ddociau gydag un fynedfa. Gwelsom luniau o lawer ohonynt ar y sgrîn. Ymhen amser roedd saith milltir o ddociau ar y ddwy ochr i'r afon. Yn y flwyddyn 1901 adeiladwyd y Warws Baco mwyaf yn y byd ar y dociau. Gwelsom luniau o'r llongau stêm. Roedd pobl o Ewrop yn dechrau ymfudo dros yr Atlantig. £20 oedd y gost i fynd o Lerpwl i Efrog Newydd, ac ymhen amser daeth y gost i lawr i £3 ar y llongau stêm! Mae wal gwenithfaen y dociau, sef un o ddyfeisiadau Jesse Hartley, wedi dal yn gryf hyd heddiw. Mae archeoleg wedi bod yn ddiddorol yn hanes y dociau. Gwelsom lun hardd o'r dociau o'r awyr. Diolchodd Mr Roderick Owen i'r siaradwyr a chyflwynodd Dr. D. Ben Rees a roddodd fraslun o hanes Cymry



*Rhan o'r gynulleidfa hardd*



*Llywydd y noson: Roderick Owen*




*Llun nodweddiadol o Dr. Rees*





*Gwrando'n astud*



*Cefnogwyr y Wladfa:*
*Arthur Thomas a'r Llywydd*



*O'r chwith i'r dde: Dougal Haver, Ian Pollitt a Peter de Figuieredo*



*Nan Hughes-Parry, Hilda Thomas a Wena Evans*



*Rhagflas o Ŵyl Mimosa*



*Jim ac Elin Boyd yn dal pen rheswm gyda'r nofelydd, Dougal Haver*



*Ted Clement-Evans; Ysgrifennydd Cymdeithas Etifeddiaeth Glannau Merswy a'i briod*

Rhifyn Ebrill 1-12_Tud 8 Mehefin.qxd 06/03/2015 10:45 Page 7



*Mair Powell, Sara Williams a Rachel Gooding yn mwynhau paned*



*Norma Owen, Gwenfyl Bain, Mair Roberts a Anne Thomas*

Lerpwl. Clywsom am y Parchg. Michael D. Jones a'i wraig o'r Bala yn talu i Gymry gael gadael Doc Fictoria am Batagonia, siwrnai o 7,000 milltir. Edwin Cynrig Roberts, sef hen daid i Mrs Elan Jones, Templemore Avenue, a Lewis Jones o Gaergybi oedd y ddau arweinydd. Aeth Hugh Hughes (Cadfan) o Gaernarfon allan hefyd, a Sir Thomas Duncombe Love Jones-Parry. Dychwelodd ef a dweud fod Patagonia yn le da iawn i fyw ynddo. Mewn gwirionedd, roedd yn le anodd iawn i fyw ynddo, a'r tir yn galed.

Aeth tua 163 o Gymry drosodd i Batagonia ar Fai 28 gant a hanner o flynyddoedd yn ôl i Borth Madryn. Gwelsom luniau o gapeli y mae Dr. Rees wedi pregethu ynddynt. Bydd plant o Ysgol yr Hendre yn dod drosodd yma ym mis Mai gyda'u hathrawon.

Wedi diolch i Dr. Rees, cyflwynodd Mr. Roderick Owen, y siaradwr olaf, sef Dougal Haver (P.R. Consultant i Marks & Spencer a Shell). Ysgrifenodd nofelau am Batagonia a dweud ei fod wedi mwynhau ymchwilio i hanes Cymry Patagonia. Gwyddel yw, ond cofiai chwarae gyda phlant Cymraeg yn Lerpwl yn y saithdegau cynnar. Dywedodd am Gymry cynnar Patagonia eu bod yn wrol ac yn stoicaidd. Mae dolen gyswllt gref iawn rhwng Cymry Patagonia a'r Fam Wlad. Yn stori Dougal Haver, rhaid dyfalu pwy a laddodd Karl Jenkins!

Cafodd Dougal Haver ei gymeradwyaeth a chawsom rhagor o groeso Peel Holdings – te, coffi a bisgedi wrth gyrraedd a hefyd wrth ymadael. Mae y diddordeb yn yr Ŵyl yn argoeli'n dda, o du Peel Holdings, Cymry Lerpwl, Cymry Penbedw a Chymry Manceinion. Lawnsiwyd yr Ŵyl mewn urddas a graen ar 9 Chwefror.

Myfyrdod

# DRAMA'R PASG

gan Elwyn Parry

Mae ddrama fawr y Pasg wrth y drws petai ac wrth ddarllen yr hanes eto rydw i wedi bod yn meddwl am un cymeriad sef Caiaffas. Does dim byd i feddwl amdano gydag ef meddech chi. Tybed?

Dwn i ddim byd am deulu Caiaffas fel y cyfryw ond ystyr ei enw sef "y chwilotwr dyfal". Roedd yn ôl pob tebyg yn fachgen peniog, un craff ac yn medru rhesymu a dadlau'n gryf. Buaswn yn dweud bod well gen i fo ar fy ochr i nag yn fy erbyn. Arweinydd y Sanhedrin ar y pryd oedd Annas ond roedd wedi mynd i oed a doedd ddim yn effeithiol fel Arweinydd ac fe benderfynodd ymddeol. Yn y cyfamser roedd Caiaffas yn ffrindiau mawr â merch Annas ac yn fuan wedyn roeddynt wedi priodi. Wel, rwan, doedd dim Arweinydd a Caiaffas gafodd y swydd! Buaswn wrth fy modd yn cael sgwrs ag ef ac i fod yn gwbl onest buaswn yn barod mewn un ystyr i roi clod iddo. Roedd yn ddigon craff ac yn gall iawn i weld arwyddocad yr Arglwydd Iesu yn llawn, yn wir roedd yn hyn o beth ymhell o flaen y disgyblion. Yr adeg yma roedd y disgyblion ond yn gweld yr Iesu fel Meseia, y brenin yn dod i goncro Rhufain a rhoddi brenhiniaeth y byd i Israel.

Roedd Caiaffas ar ôl ei ddyrchafiad fel Arweinydd y Sanhedrin yn bennaeth bywyd crefyddol a chymdeithasol y genedl Iddewig ac i bron pob pwrpas yn frenin nes yn ôl y proffwydi "dyfod y Meseia." Fe sylweddolodd Caiaffas yn fuan bod ei fywyd personol ef mewn perygl. Fe sylweddolodd fod yr Arglwydd Iesu yn mynd i chwalu'i fyd os oedd am fyw ac fe ddechreuodd cymeryd y cam cyntaf i ladd yr Iesu. Fe sylweddolodd eto fod yn rhaid ildio ei safle i'r Iesu, i fod yn ail i'r Iesu, ei holl eiddo yn eiddo i'r Iesu. Yr Arglwydd oedd yn teyrnasu ym mhob dim. "No way" oedd ymateb Caiaffas. Trowch hyn at eich bywyd chi – buasech chi yn barod i ildio i'r Arglwydd Iesu? – Basech chi'n barod i roddi eich holl eiddo i'r Arglwydd Iesu? – Buasech chi'n gadael i'r Arglwydd Iesu drefnu pob dim, gwas fyddwch ynte?

Yn y prawf wrth ddarllen yr hanes doedd dim sicrwydd y gwnai'r Sanhedrin gael dedfryd ac wedyn buasai'r Iesu'n cael ei rhyddhau. Ond roedd Caiaffas wedi gwneud ei waith cartref. Chwilotwr dyfal oedd ac ar ôl astudio'r gyfraith a phroffwydi'r Hen Destament, dyma Caiaffas yn cymeryd yr awennau a gofyn y cwestiwn dynghedfenol, "Yr wyf yn dy dynghedu di drwy y Duw byw i ddweud ai ti yw y Meseia? Roedd yr Iesu mewn congl – Llw'r Dystoliaeth – oedd rhan o'r cwestiwn a pe nad atebai buasai'r Iesu yn euog o gabledd ac ar y llaw arall os atebai buasai'n herio awdurdod Rhufain. Dedfryd y ddau oedd marwolaeth.

Do, fe welodd Caiaffas bod 'na ddewis ond wrth iddo ladd yr Arglwydd roedd yn cydnabod mawredd ac arglwyddiaeth yr Arglwydd Iesu Grist? Does dim modd anwybyddu arwyddocad aruthrol yr Arglwydd Iesu Grist ar ein bywyd. Y camgymeriad wnaeth Caiaffas oedd lladd yr Arglwydd a thrwy hynny fe laddodd ei hun. Dyna Paul wedyn yn cael ei ddal yn y rhwyd ar y ffordd i Damascus gan yr Arglwydd a thrwy hynny mae Paul yn fyw. Dyna'r dewis i ni ar adeg y Pasg dilyn Paul neu Caiaffas? Byddwch yn ofalus!!

# Rhaglen Gŵyl Mimosa

## (Nos Wener Mai 29 i bnawn Sul, Mai 31, 2015) yn Lerpwl o dan nawdd Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi, a thrwy gymorth Garedigion yr Ŵyl

**Trefnwyd y rhaglen ganlynol:**

**NOS WENER, 29 MAI 2015** yn Neuadd Canolfan y Crynwyr (Quaker's Meeting House, School Lane) yng nghanol y ddinas am 7.30 o'r gloch pryd y ceir Noson ar **Cefndir a Chyflwyno y Mimosa.**
Ceir cyfraniadau yn Gymraeg a Saesneg gan Dr. D. Ben Rees (cefndir), Wayne Jones, Llandeilo (y llun a'r print), Susan Wilkinson, Toronto, **Mimosa** a Ian Pollitt o Peel Holdings ar Yfory, a'r Dadorchuddio.
Y Cadeirydd: Roderick Owen

**SADWRN, 30 MAI**
**Bore Sadwrn ceir dewis**
***a) Cerdded o Otterspool i Doc Albert*** (5 milltir) yng nghwmni Cymdeithas Edward Llwyd dan arweiniad Alun Davies
***b) Dwy sesiwn yn Amgueddfa Morwrol Lerpwl*** *(Merseyside Maritime Museum).*
I gasglu erbyn 10.15 o'r gloch. Traddodir Darlith ar **Arloeswyr y Mimosa** gan Elvey MacDonald, Llanrhystud.

11-20 - 11.45 – Toriad am baned.

11.45 - 12.45 – **Seiat Holi yng nghwmni Prif Weinidog Cymru, Marli Pugh, Gaiman, Irma Roberts a Wendell Davies o'r Wladfa.**
Holwr: Yr Athro D. Ben Rees
Bydd angen tocyn neu talu wrth y drws yn y bore.

**3 o'r gloch – DADORCHUDDIO Y GOFEB** ger Swyddfa Peel Holdings ac ymyl Doc Princes (ffordd yn mynd heibio Crowne Plaza – rhoddir y cyfarwyddiadau yn y rhifyn nesaf ac yn y Llawlyfr).
Y Seremoni yng ngofal Dr. Huw Edwards, Llundain a cheir cyfraniadau gan Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, AC., Maer Lerpwl, Llysgennad Ariannin, Christine James (Archdderwydd Cymru), Cadeirydd Cymdeithas Etifeddiaeth. Cenir gan Hogiau'r Wilber (Gaiman) ac eraill.

**Nos Sadwrn am 7.30 o'r gloch** yng Nghapel Methodistiaid Saesneg, Elm Hall Drive, Allerton (ger Penny Lane) yng nghwmni **Côr Merched Edeyrnion** (Arweinydd: Manon Easter Lewis). Unawdwyr: Siôn Goronwy a Trebor Edwards. Llywydd: Yr Athro Huw Rees.
Tocynnau ar gael erbyn Ebrill 1.

**Sul, Mai 31, 2015**
**Oedfa'r Mimosa am 10.30 yng nghapel Ysgol Uwchradd Bluecoat, Church Road, Wavertree**
*Llywydd:* Dr. D. Ben Rees.
*I bregethu:* Parchg. R. W. Jones, BA, Wrecsam. *I gymeryd rhan:* Ysgol Gymraeg yr Hendre, Trelew
**O 12 o'r gloch i 1.45** darperir lluniaeth a chyfle i gymdeithasu mewn ystafell helaeth yn Ysgol Bluecoat. Darperir hyn gan gwmni preifat a chymorth chwiorydd Cymry Lerpwl.
**2 o'r gloch –** Cynhelir **CYMANFA GANU** o dan ofal Mr. R. Ifor Griffith. Llywydd: David Mawdsley, Bodfari. Cyflwynir gan Dr. D. B. Rees. Defosiwn: Parchg. R. W. Jones.

Ceir gwybodaeth yn y rhifyn nesaf o'r Angor a bydd **Llawlyfr yr Ŵyl** allan ar ddydd Gwener, 1 Mai.
Anfoner amdano (pris £3 trwy'r post) i Dr. D. Ben Rees, 32 Garth Drive, Liverpool L18 6HW erbyn Ebrill 25 neu benatgarthdrive@talktalk.net

Rhifyn Ebrill 1-12_Tud 8 Mehefin.qxd 06/03/2015 10:45 Page 9

# Cinio Gŵyl Dewi yn Noddfa Oaker Avenue



Lluniau gan Elwyn Evans



*Staff y gegin*



*Wrth y byrddau*




*Pennant Roberts, Glenys Davies a Trefor*




*Ann Crug yn siarad*




*Deuawd gan Trefor Davies a Glynn Morris, Lilian Garrett wrth y piano*



*Anne Hunt*




*Lois Murphy*



*Dr. Bill Roberts*



*Bronwen Jones*



*Lilian Garrett*

## *Darn o Hunangofiant Brian Thomas*

# Fy ngyrfa fel athro yn Lerpwl



***Brian Thomas a Ben Hughes***

### Pennod 1
### O Fangor i Gilmour

Pan ddeuthum at derfyn fy nwy flynedd yn y Coleg ym Mangor, 'roedd yn rhaid penderfynu i ble 'roeddwn am fynd i chwilio am swydd fel athro. Yn y dyddiau hynny 'doedd dim ofn arnom na chawsom swydd, canys 'roedd digon ar gael os oeddem yn barod i 'fynd ar ein beic', fel y dywedodd Norman Tebbitt ers talwm. Ond hefyd 'roeddem yn gwybod nad oedd llawer o siawns gennym i gael swydd yn syth o'r Coleg yn yr hen Sir Gaernarfon, os nad oedd ganddo ni berthynas neu ffefryn yn gweithio yn y Cyngor Sir!

Ar ôl gyrru ffurflenni cais i amryw awdurdodau, yn cynnwys rhai yng Ngogledd Cymru, cefais gynnig swydd yn Kingtson Upon Thames ar gyrion Llundain. Yna daeth Mr. Grant, Prif Arolygwr Addysg Lerpwl, i Fangor i chwilio am athrawon ifanc addawol. Wedi cyfweliad cynigodd swydd imi mewn ysgol oedd yn cwrdd a'm diddordebau mewn chwaraeon, a phêl-droed yn bennaf. Dywedodd fod yr ysgol yma yn canolbwyntio ar chwaraeon a bod llawer pêl droediwr o fri wedi datblygu ohoni. Enw'r ysgol hon oedd GILMOUR SECONDARY SCHOOL FOR BOYS. 'Roedd hanner dwsin o'm ffrindiau hefyd wedi cael cyfweliad a bu inni benderfynu derbyn y cynnig o swydd deuthum yma i Lerpwl fel criw. Cawsom le i fyw ym Mhrinces Road ac 'roeddem yn hapus iawn yn byw fel 'gwŷr o'r goedwig' yn y fflat hwn. 'Roedd chwech ohonom yn byw yno, efo dim ond dau wely! Sut yn y byd 'roeddem yn cysgu, 'dwn i ddim! Byw allan o duniau *Baked Beans* a phwdin reis a mynd allan ar sbri bob nos. Gwareiddiaid gorau Cymru wedi dod i fyw yn y dref fawr, ac yn dal i feddwl eu bod yn y Coleg. Cyn diwedd y flwyddyn 'roeddwn wedi cael 'Glandular Fever', a'r meddyg yn rhoi'r bai ar fy ffordd o fyw. Ond bu gwaredigaeth, bu imi gyfarfod a Hilda mewn dawns yn y clwb Cymraeg yn Upper Parliament Street, ac o fewn y flwyddyn 'roeddem wedi dyweddïo a phriodi, ac nid o raid chwaith!!

**GILMOUR SECONDARY SCHOOL FOR BOYS
HEADMASTER
MR. N.K. BRIDGE, BA**

Cofiaf yn dda fy more cyntaf yn yr ysgol. Tri ohonom yn dechreu o'r newydd, ac yn cael ein tywys i ystafell y Prifathro, gan y dirprwy, gˆwr o Sir Efrog, a fyddai'n cerdded drwy'r dydd, a phibell yn ei geg heb fyth ei dynnu, yn debyg iawn i'r meddyg sy'n actio yn y rhaglen 'The Royal.' Y Prifathro, Mr. N. K. Bridge, gŵr o Sir Gaerhirfryn, a dyma ddywedodd wrth y tri ohonom (gallaf gofio bron air am air, ei ddatganiad) –

> "Gentlemen, welcome to Gilmour School. We hope you will be effective teachers here, to be effective you will have to maintain discipline. The discipline in this school is maintained *by judicious use of the stick*. As probationary teachers you are legally not authorised to use of the cane. This is most unfair. BUT, in the School Punishment Book you will find a sheet of loose paper, on which you will enter the *details ofyour judicious use of the stick*. Prior to any inspection of this book by the Authority, I will have removed that loose sheet, and I will take full responsibility for your entire entries, and Mr. Norris here is your witness that I have authorised your use of the cane. And, Gentlemen, if you can't maintain discipline, your days here are numbered. Good Luck, Gentlemen".

Dyna ichwi groeso gan Brifathro.

Bum yno am dair blynedd hapus yn dysgu Hanes a P.E., ac yn athro dosbarth ar Form 2B. 'Roedd hi'n ysgol hwyliog braf a chymysgaeth dda o athrawon profiadol ac athrawon ieuanc heiny, yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Cofiaf yn dda, un bore yn cymeryd gwers P.E. gyda dosbarth o hogiau yn yr Hall, oedd yn dyblu fel 'Gymnasium'. Minnau ar y 'Stage' yn galw ar yr hogiau i wneud pedwar tîm o bump i gymeryd rhan mewn sgiliau 'relay', ac yn cerdded ar draws y 'stage' a'm pen i fyny, yn cyfrif y timau i wneud yn siwr eu bod yn gyfartal, ac yn cerdded yn syth oddiar ochr y 'stage' ac yn disgyn yn fflat ar fy nhrwyn, ar fy hyd ar y llawr. Erbyn imi godi, 'roedd yr hogiau i gyd yn morio chwerthin, a rhai ohonynt yn crio o chwerthin, ac yn methu stopio! 'Roedd y wers honno ar ben am y diwrnod, a'm hyder i wedi ei friwio rhywbeth. Ond plant anhygoel o glên oedd y rhan fwyaf ohonynt ac ar wahan i'm hatgoffa bob hyn a hyn am yr anffawd, cario 'mlaen oedd raid. Cofiaf hefyd drefnu gêm pêl-droed yn erbyn tim o fechgyn ieuanc o Wrecsam, ac yn cael diwrnod hynod o dda. Blynyddoedd wedyn, pan yn cwrdd rhai o'r hogiau, 'doedd yr un ohonynt yn cofio dim am y gêm, ond beth yr oeddynt yn ddiwahan yn gofio, oedd mochyn fawr o faedd a welsant mewn cae. *"Do you remember that big pig we saw, Sir"*. Y tro cyntaf i'r rhan fwyaf ohonynt weld mochyn erioed. Rhyfedd beth sy'n aros yn y cof ynte?

Ysgol ryfeddol oedd Ysgol Hogiau Gilmour. Y rhai yn y garfan uwch, y grŵp "A", yn gorffen eu haddysg yn pasio "O" level yn Saesneg, Art, Technical Drawing a Bioleg. Ond 'roedd y rhai llai breintiedig, yn y Dosbarth "D" yn dal i fethu darllen, a neb yn poeni rhyw lawer am hynny. Ar ôl tair blynedd braf, hapus yn yr ysgol 'roedd sylweddoli nad oedd y plant araf yn cael chwarae teg, ac nad oedd arbenigrwydd ar gael i ddysgu darllen yn well iddynt yn fy mlino yn fawr, a chwynais yn wyllt rhyw ddiwrnod wrth y Dirprwy, Jim Norris. Cwynais am fod yn rhaid imi roi Arholiad Hanes i griw o fechgyn o Ddosbarth "D", a'u marcio allan o gant, a'r rhan fwyaf ohonynt yn methu darllen y cwestiynnau. Cofiaf ofyn os buasai'n bosibl imi dreulio'r wers yn eu dysgu i ddarllen, yn hytrach na'u dysgu i dderbyn manylion am Hanes byddinoedd Lloegr. Ei ymateb oedd, *"No Brian, you must follow the Syllabus, but if you feel like that, why don't you try Special Schools, they're crying out for teachers like you. You won't change anything here"*. Ac felly y bu imi newid fy ngyrfa fel athro. Jim Norris yn trefnu imi gael cyfweliad gydag Arolygwr Addysg Arbennig Lerpwl, gŵr o'r enw Clifford Holroyd. Daeth i Ysgol Gilmour i'm gweld, ac o fewn ychydig wythnosau 'roeddwn yn athro cynorthwyol yn ysgol Arbennig Brookside, yn Fazakerley.

*(i'w barhau)*

*Haelioni i'w Glodfori*

# APÊL MIMOSA MAI 2015

Y mae angen cyfalaf i godi y Cofadail i gofio arloeswyr y llong Mimosa (1865-2015) ar bnawn Sadwrn, 30 Mai ac i gynnal Gŵyl y Mimosa o Nos Wener hyd bnawn Sul, 31 Mai. Erbyn hyn cyhoeddwyd tair rhestr yn rhifynnau Yr Angor (Rhag/Ion 2015), Chwefror (2015), Mawrth (2015) a dyma pedwerydd rhestr yn rhifyn Ebrill o'r papur bro. Caiff yr holl restrau eu cyhoeddi eto yn Llawlyfr yr Ŵyl.

**Y PEDWERYDD RESTR (i 28/2/2015)**

1) Megan a Glyn Davies, Rhuthun, Dyffryn Clwyd ..................£25
2) Penny a David Mawdsley, Bodfari, Dinbych .......................£100
3) Ted Clement-Evans, Aigburth, Lerpwl ................................£150
4) Gwilym Short, Crosby, Lerpwl ............................................£100
5) Côr Meibion Dyfi, Machynlleth (trwy ddwylo David Pugh)..£50
6) Geraint I. Short, Crosby, Lerpwl ..........................................£100
7) Cymdeithas Gymraeg Dewi Sant, Regina, Saskatchwen, Canada. Anfonwyd 100 Doleri Canada ..................................£51
8) Stephen Pye, Lerpwl a Clwb Rotari Dinas Lerpwl ................£10
9) Andrew Kellaway (Formby) a Clwb Rotari Dinas, Lerpwl ....£10
10) Bill Connolly, Lerpwl a Clwb Rotari Dinas Lerpwl ............£10
11) John Elliott, Lerpwl a Clwb Rotari Dinas Lerpwl ...............£10
12) Anne ac Arthur Thomas, Allerton, Lerpwl .........................£225
13) Hilda a Brian Thomas, Mossley Hill, Lerpwl ......................£50
14) Beryl a Dr. John G. Williams, Calderstones, Lerpwl ...........£50
15) Clwb Cinio Cymraeg Caergybi, Môn (trwy law Robyn Williams, Fali)..........................................£50
16) Mrs Enid Hughes Jones, Broadgreen, Lerpwl .....................£25
17) Judith ac Alun Davies, Ffordd Woolton, Lerpwl .................£25
18) Mrs Anne S. Jones, Trefebin, Cilgwri ..................................£25
19) Cymdeithas Cymry Manceinion (trwy law Mr Elwyn Evans, Didsbury) ................................................................£300
20) Mrs Iola A. Edwards o Gymdeithas Gymraeg Penbedw ......£20
21) John Medwyn Jones a E. G. Jones, Bae Colwyn .................£50
22) Meinwen a Dr. D. Ben Rees, Allerton, Lerpwl ..................£500
23) Eglwysi Presbyteraidd Cymru Seion, Laird Street, Penbedw (trwy law Miss Iris Hughes Jones) .....................£150
24) Alice a Hywel Jones, Thingwall, Cilgwri ............................£30
25) Mrs Gwen Rigby, Brodie Avenue, Lerpwl 19 ......................£25
26) E. Goronwy Owen, Calderstones, Lerpwl..........................£250
27) Mrs Gwen Jones, Allerton, Lerpwl ......................................£25
28) Mrs N. A. Jones, Llanwrin ger Machynlleth ........................£30
29) Mrs Louie W. Jones, Allerton, Lerpwl ................................£20
30) Teulu Mair ac Idris Roberts, Allerton, Lerpwl .....................£60
31) Alun Owen, Burscough, Sir Gaerhirfryn..............................£60
32) Bethan Rees Jones, Salisbury, Swydd Wiltshire ..................£25
33) Eryl a Mike Dooling, Rainhill, ger Prescot..........................£25
34) Margaret ac Alan Williams, Allerton, Lerpwl ......................£25
35) Meirick Ll. Davies, Cefn Meiriadog ger Abergele ..............£25
36) Heulwen a J. Bryan Jones, Hen Golwyn..............................£25
37) Bob Puw, Pontcanna, Caerdydd ..........................................£25
38) Mrs Rhiannon Liddell, Wavertree, Lerpwl...........................£25
39) Helen a Alun Vaughan Jones, Childwall, Lerpwl ................£20
40) Cymdethas Gymraeg Birkenhead......................................£150
41) Undeb Bedyddwyr Cymru (trwy law y Parchedig Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol) ..........................£50
42) Parchedig Eirian Wyn Lewis, (Llywydd Undeb y Bedyddwyr Cymraeg), Mynachlog Ddu, Sir Benfro ...........£30
43) Mrs Eira Pari Huws, Porthaethwy, Ynys Môn .....................£25
44) Mrs Mair Rees Jones, Claughton, Cilgwri ...........................£25
45) Mr Gwyn ac Olwen Jones, Cilgwri ......................................£40
46) Mrs Delyth Rees Horsley, Havenstreet, Ynys Wyth/Isle of Wight ......................................................£25
47) Mrs Marged Jones, Maes y Ffynnon, Rhuthun ....................£10
48) Phyllis a Terry O'Neill, Oxton, Cilgwri ...............................£25
49) Mrs Anne Maud Jones, Allerton, Lerpwl .............................£20
50) Mrs Olwen Jones, Allerton, Lerpwl .....................................£20
51) Mrs Pam A. Mcnamara, Litherland, Lerpwl ........................£50

Cafwyd mwy o gyfraniadau y tro hwn – 51 i gymharu â 34 yn rhifyn Mawrth, ac ni allaf ond mynegi fy niolch diffuant am yr ymateb godidog hwn ac am bawb sydd am ymweld â ni dros yr Ŵyl.

Anfoner cyfraniadau ar gyfer rhifyn nesaf o'r *Angor* (dyddiad cau yw 27 Mai, 2015) yn enw **Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi / Merseyside Welsh Heritage Society** i 32 Garth Drive, Lerpwl L18 6HW.

Daw y pumed rhestr yn rhifyn mis Mai o'r *Angor*.
Ar ran y Pwyllgor Gwaith.

*Llawer o ddiolch*

***D. Ben Rees (Cadeirydd)***

# CORNEL Y TRYSORYDD

## EBRILL 2015

Mr Gareth Jones, Graigfechan .....................................£20.00
Mrs Anne Jones, Bebington .........................................£25.00
Mrs Eryl Chitty, Gateacre ............................................£11.00
Mrs Eryl Dooling, Rainhill ..........................................£25.00
Mrs Christine Hughes, Dinbych...................................£20.00
Elen Ogwen ac Arwel Jones, Rhosgadfan ....................£25.00
Mrs Marged a Norman Tee, Rhyduchaf.........................£5.00
Mr Alun Davies, Gateacre............................................£20.00
Mrs Louie Jones, Allerton ............................................£30.00

**Cyfanswm £181.00**

**Roderick Owen (Trysorydd)**

Rhifyn Ebrill 1-12_Tud 8 Mehefin.qxd 06/03/2015 10:45 Page 12

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes newyddiaduriaeth Cymraeg 2015. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor*.
- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

• **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

**i) Rhifyn Mai 2015 –** erbyn bore Mercher, 1 Ebrill 2015 –neu ar y we i benatgarthdrive@talktalk.net neu ben@garthdrive.fsnet.co.uk Dyma rifyn olaf Cyfrol 36.

**ii) Rhifyn Mehefin 2015** – erbyn bore Gwener, 1 Mai 2015 – y lluniau, adroddiadau etc.

**iii) Rhifyn Gorffennaf 2015 –** erbyn bore Llun, 1 Mehefin 2015 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

## *Diolch i Gymry Lerpwl am ofal dros Ken*

Ar ran teulu Ken (Kenneth John Pritchard) hoffwn ddiolch o galon i bawb o Gymry Lerpwl, aelodau o Eglwys Bethel, Heathfield Road, aelodau o Gymdeithas Cymru Lerpwl a pawb a gefnogodd Ken gyda eu cyfeillgarwch dros y blynyddoedd yn enwedig ar ôl iddo golli ei dad a'i fam. Doedd pethau ddim o hyd yn hawdd i Ken ond mi roedd ganddo ddoniau lu, weithiau braidd yn gudd. Roedd y gefnogaeth mewn ffordd mor garedig a chyfeillgar yn gymorth anferth i alluogi Ken i fyw ei fywyd hyd yr eithaf ac mae'n hollol amlwg ei fod wedi mwynhau cymdeithasu efo chi i gyd. Mae digon o sôn o hyd am sut i wneud yn siwr fod pobol gyda anghenion yn cael eu derbyn yn rhan o'r gymuned. Mae'r ffordd mae'r gymdeithas Gymraeg yn Lerpwl wedi cefnogi Ken yn esiampl wych a naturiol. Dwi'n hollol siwr fod Ken wedi gwerthfawrogi bod yn rhan o'ch gymdeithas. Diolch yn fawr iawn i chi gyd. Diolch hefyd i bawb a ddaeth i ymuno â ni i ffarwelio a Ken ac i ddathlu ei fywyd. Roedd yn gymeriad a roedd yn fraint i mi fod yn gyfnither iddo.
Mae'r casgliad a wnaed er cof am Ken wedi mynd at gronfa Mencap. Diolch.

***Christine Hughes, Dinbych***

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors® Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514